

**Mynydd y Gwair Wind Farm Community Liaison Group
Grŵp Cydgysylltu Cymunedol Fferm Wynt Mynydd y Gwair**

**6pm, Thursday 18th January 2018
6yh, Nos Iau, 18 Ionawr 2018**

Canolfan-y-Bont, Pontarddulais

AGENDA

1. Welcome & introductions / Croeso a chyflwyniadau
2. Apologies / Ymddiheuriadau
3. Minutes of previous meeting & matters arising /
Cofnodion o'r cyfarfod blaenorol a materion sy'n codi
4. Correspondence / Gohebiaeth
5. Update / Diweddariad - Tim James, innogy
6. Update / Diweddariad – Jenny Cowley, innogy
7. AOB / UFA
8. Next meeting / Cyfarfod nesaf

18th January 2018

The twelfth meeting of the Mynydd y Gwair Wind Farm Community Liaison Group
Canolfan-y-Bont, Pontarddulais



Attendees

Cllr Paul Northcote, Mawr Community Council
Emma North, Planning, City and County of Swansea
Sgt. Philip Morris
Alun Thomas, Highways, City and County of Swansea
Cllr. Kevin Griffith, Pontarddulais Town Council
Paul Newman, Pontlliw and Tircoed Community Council
Cllr Wyn Morgan Penllergaer Community Council
Jennifer Turner, Public Liaison Officer, Farrans
Brigitte Rowlands, WGCA
Philip McDonnell, Chair
Tim James, Construction Project Manager, Innogy Renewables UK Ltd
Jenny Cowley, Community Liaison Manager, Innogy Renewables UK Ltd
Angharad Davies, Cadno Communications Ltd

1. Welcome and introductions

The chair welcomed the group and asked everyone to introduce themselves to Jennifer Turner, representing Farrans, attending her second meeting.

2. Apologies

Cllr Robert Jones, Mawr Community Council
David Owen, Planning Dept. City and County of Swansea
Cllr. Jane Harris, Pontarddulais CC

3. Minutes & matters arising

- 3.1 The Chair asked JC for progress on the outstanding action to meet with a local resident on Bolgoed Road. JC indicated that a meeting had taken place and that she would cover this matter under her update, later in the meeting.
- 3.2. The fencing due to be erected by the WGCA near to the cattle grid (action 3.2) has yet to be completed.
- 3.3. Minute 5.9 needs to be corrected: There will be up to 50 lorry movements *in each direction*, and the permitted working time from Monday to Friday is 7.30 am (not 7 am, as noted incorrectly in the previous minutes).
- 3.4. All other actions have been completed.
- 3.5. With the amendments, the minutes were agreed as a true record of the previous meeting. Proposed by KG and seconded by EN.

4. Correspondence

- 4.1 There was no correspondence tabled for discussion.
- 4.2 PN (Pontlliw) wished it to be noted that he had received multiple items of correspondence from former Councillor, Ioan Richards, prior to Christmas but that he had not forwarded the correspondence as he felt that there were no new issues being raised, that had not been previously addressed. Other CLG members had also been contacted by e-mail and phone. JC informed the CLG that innogy had not received correspondence from this individual since last year, and that if CLG members felt that innogy should be dealing with any issues raised with them by local residents, they should forward these matters on to her.

5. Update from Tim James

5.1 Farrans have been fencing parts of the common to demarcate areas of work.

5.2 Innogy and Farrans have been finalising designs, procuring materials, including stone and electrical equipment.

5.3 Innogy ensured that their Electrical Contractor – Omexom – placed the cabling sub-contract with Wrexham-based Prysmian, thus keeping the contract value (worth in excess of £0.5 million) in Wales.

5.4 TJ visited the factory in Germany, where the wind farm mini sub-stations are being made, to review the manufacturing of the product, and reported that he is very pleased with the design and quality.

5.5 In March, a visit is planned to review progress with the wind turbine supplier, and to ensure that right product quality standards are being met.

5.6 WPD have done some work on a pylon near to site to prepare for the wind farm grid connection.

5.7 Farrans have moved plant to site and have been removing top-soil and sub-soils ready for the first section of access track and the construction compound, which is adjacent to the site entrance. The compound will accommodate welfare facilities, parking, and equipment storage for the duration of the construction.

5.8 Two trial deliveries of stone are due to take place on Friday 19th January, with work starting in earnest on Monday 22nd January. The stone is being provided by two quarries, one near to Lampeter and the other near Crosshands. As these quarries are located to the west of the wind farm site, care will need to be taken that drivers keep to the agreed delivery route, and avoid travelling through Pontarddulais.

5.9 PN (Mawr) noted that litter has been accumulating around the fence near to the entrance site, exacerbated by recent high winds. TJ noted that the source of the litter was external to the site. (AP: TJ asked Farrans to clear the litter).

5.10 PN also noted that some roads had been made muddy as a result of works vehicles and asked for the highways to be kept clean. AT emphasised that it was preferable that contractors avoided getting mud on the highways in the first place, rather than retrospectively cleaning after the event. TJ explained that they needed to get onto the site in order to install the dry-cleaning facility. JT reassured members that a sweeper was due to clean the highways very soon.

5.11 In response to a query from PM, TJ confirmed that there will be 24-hour site security present.

5.12 Brigitte Rowlands joined the meeting.

5.13 In terms of the delivery of stone to site, due to begin on 22nd January, TJ explained that the 50 lorries per day, discussed previously, was an absolute maximum. The contractor is only allowed to build within a 300 metre section at any one time, and all of the drainage needs to be installed along the route, either side, including re-instatement works. He anticipates that Farrans will aim to complete 85 metres of track daily, and to do this, they will need 500 tonnes of stone, which equates to 25 lorry-loads per day (the maximum delivery per day allowed is 1000 tonnes which totals 50 lorry-loads). However, TJ's preference is to work to the maximum potential, which means bringing 1000 tonnes to site, daily, so that work can be completed more quickly.

5.14 BR asked for an update on the ARUP report on road safety around the wind farm site. The report has been compiled and is awaiting inputs from South Wales Police. AT reported that South Wales Police had intended to visit the site earlier in the month but had been hampered by poor weather, but will attempt a second visit next week.

5.15 BR asked whether the layby on Five Roads is being reinstated, as this is a matter of priority for local residents, particularly those in Cwmdulais. The lack of a layby is causing parking inconvenience for local residents. A date for the completion of this work would be appreciated. TJ explained that as the project was being handed from one contractor to another, there had not been anyone available to carry out any work. (AP: TJ to raise the matter with fellow project manager, Mike Williams).

5.16 BR queried why the rhododendron was being burned on site. TJ explained that this had been licensed by NRW and was being done under the oversight of the project Ecological Clerk of Works; rhododendron is classified as special waste. It is an invasive species and cannot therefore be used for biomass.

6. Update from Jenny

Cowley

6.1 JC has received a request from Rhydybandy community for money from the CBF and has explained to them that applications will not be dealt with until there is a grant process and the wind farm is operational.

6.2 JC had a useful meeting with residents of Bolgoed Road. Vibration is still being monitored at the site entrance and this will continue for a further two months, as stone deliveries are being made. JC promised to work with residents and continue to listen and act upon their concerns, and she will ensure that they are aware of forthcoming construction work.

6.3 The letter drops prior to the AIL dry-run had worked well, and JC wishes to build upon that activity. In the vast majority of cases, JC has e-mail addresses for residents who are likely to be impacted, but where no e-mail contact has been obtained, efforts will be made to contact resident via a leaflet. JC will also notify CLG members.

6.4 TJ has updated his blog and will continue to do so.

6.5 The haulier being used is Tarmac.

7.

AOB

7.1 PN (Mawr) requested further clarification about how the community benefit fund money would be distributed amongst community councils and explained that there was some confusion about how much Mawr might benefit, and concerns that the community may lose out, despite the fact that the wind farm is located within the ward.

7.2 The Chair reminded members that SCVS had been appointed as an independent administrator and was currently setting up the process to manage the fund. He felt that the intent was clear: that good projects from local community councils would be prioritised before any schemes submitted from other parts of Swansea. He emphasised that it was a two-way process and that groups and organisations in the local area needed to develop good project ideas for consideration by the grants panel.

7.3 CLG members continue to have concerns that they lack the professional capacity to develop projects and complete grant applications and that this will disadvantage them. Community Councils are seeking reassurance that this will not be the case. Members were reminded of the October CLG meeting where a representative of the SCVS addressed the meeting, and reassured them that their lack of project and grant expertise would not disadvantage them.

7.4 CLG members were also reminded that representatives of the community councils will be on the decision-making panels.

7.5 It is unclear how far SCVS have advanced their thinking in terms of process and governance.

7.6 There is a mini-consultation being conducted in Mawr, because the local community had not participated in the original consultation.

7.7 The Chair said that he has had a professional connection with SCVS and is confident of the organisation's ability to support and work with local communities.

7.8 Members felt that their concerns could only be allayed when they had full sight of proposed processes, governance structures and timescales.

7.9 The Chair reminded members that they could contact SCVS with their queries, directly, and that there was still some time to work through all the issues, in advance of the fund becoming available, which is when the wind farm is operational (probably towards the end of 2018). (AP: JC will get an update on progress with the CBF from KH of innogy).

8. Next meeting:

8.1 The next meeting will be held at 6 pm on Thursday 8th March at Tircoed Village Hall (subject to availability)

8.2 The meeting concluded at 7.00 pm.

18 Ionawr 2018

Deuddegfed cyfarfod Grŵp Cyswllt Cymunedol Fferm Wynt Mynydd y Gwair
Canolfan-y-Bont, Pontarddulais

Mynychwyr

Y Cyngorydd Paul Northcote, Cyngor Cymuned Mawr
Emma North, Cynllunio, Dinas a Sir Abertawe
Y Rhingyll Philip Morris
Y Alun Thomas, Priffyrdd, Dinas a Sir Abertawe
Y Cyngorydd Kevin Griffith, Cyngor Tref Pontarddulais
Paul Newman, Cyngor Cymuned Pontlliw a Thircoed
Y Cyngorydd Wyn Morgan, Cyngor Cymuned Penllergaer
Jennifer Turner, Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd, Farrans
Brigitte Rowlands, CCGM
Philip McDonnell, Cadeirydd
Tim James, Rheolwr Prosiect Adeiladu, Innogy Renewables UK
Ltd
Jenny Cowley, Cyswllt Cymunedol, Innogy Renewables UK Ltd
Angharad Davies, Cadno Communications Ltd

1. Gair o groeso a chyflwyniadau

Croesawodd y cadeirydd y grŵp a gofynnodd i bawb gyflwyno eu hunain i Jennifer Turner, oedd yn cynrychioli Farrans ac yn mynychu ei hail gyfarfod.

2. Ymddiheuriadau

Y Cyngorydd Robert Jones, Cyngor Cymuned Mawr
David Owen, Cynllunio, Dinas a Sir Abertawe
Y Cyngorydd Jane Harris, Cyngor Cymuned Pontarddulais

3. Cofnodion a materion yn codi

- 3.1 Gofynnodd y cadeirydd i JC am ddiweddariad ynglŷn â'r cyfarfod arfaethedig â thrigolion lleol ar Ffordd Bolgoed. Dywedodd JC bod y cyfarfod wedi digwydd ac y byddai'n ei drafod yn ystod ei diweddariad, yn nes ymlaen yn y cyfarfod.
- 3.2. Mae'r gwaith ffensio oedd yn fod i gael ei wneud gan GGCM ger y grid gwartheg dal heb gael ei gwblhau
- 3.3. Cofnod 5.9 angen ei gywiro: Bydd hyd at 50 lori yn teithio *bob ffordd*, ac yr amser gweithio a ganiateir o ddydd Llun i ddydd Gwener yw 7.30 am (nid 7 am, fel y nodwyd yn anghywir yn y cofnodion blaenorol).
- 3.4. Mae pob cam weithredu arall wedi ei gyflawni.
- 3.5. Gyda'r diwygiadau, cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod blaenorol. Cynigwyd nhw gan KG a'u heilio gan EN.

4. Gohebiaeth

- 4.1 Nid oedd unrhyw ohebiaeth wedi'i gyflwyno i'w drafod.
- 4.2 Rodd PN (Pontlliw) am iddo gael ei nodi ei fod wedi derbyn llawer o ohebiaeth gan y cyn-gyngorydd, Ioan Richards, cyn y Nadolig, ond nad oedd wedi anfon yr ohebiaeth ymlaen gan nad oedd yn teimlo bod unrhyw fater newydd yn codi, nad oedd eisoes wedi cael ei drafod. Roedd aelodau eraill o'r GCC wedi derbyn gohebiaeth hefyd, trwy ebost a dros y ffôn. Dywedodd JC wrth y GCC nad oedd Innogy wedi derbyn gohebiaeth gan yr unigolyn yma ers y llynedd. Ond os oed aelodau'r GCC yn teimlo bod angen i Innogy ddelio a materion sy'n codi gan drigolion lleol, yna iddyn nhw anfon y materion ymlaen ati hi.

5. Diweddariad gan Tim James

5.1 Mae Farrans wedi bod yn fensio rhan o'r tir comin er mwyn pennu ardaloedd gwaith.

5.2 Mae Innogy a Farrans wedi bod yn cwblhau cynlluniau ac yn cael gafael ar ddeunyddiau, yn cynnwys cerrig ac offer trydanol.

5.3 Sirrhaeodd Innogy bod eu Contractwyr Trydanol - Omexom - yn rhoi'r is-gontract ceblau i gwmni Prysmian o Wrecsam, gan gadw gwerth y contract (mwy na £0.5 miliwn) yng Nghymru

5.4 Aeth TJ i weld y ffatri yn yr Almaen, lle mae is-orsafoedd bach y fferm wynt yn cael eu cynhyrchu, a hynny er mwyn adolygu'r gwaith, dywedodd ei fod yn falch iawn â'r cynllun a'r safon.

5.5 Ym mis Mawrth, mae taith wedi ei threfnu i adolygu cynnydd cyflenwr y tyrbinau, ac i sicrhau bod y safonau ansawdd cynych cywir yn cael eu dilyn.

5.6 Mae WPD wedi bod yn gwneud gwaith ar beilon ger y safle er mwyn paratoi ar gyfer cyswllt grid y fferm wynt.

5.7 Mae Farrans wedi symud offer i'r safle ac wedi bod yn symud uwchbridd ac isbridd yn barod ar gyfer rhan gyntaf y trac mynediad a'r compownd adeiladu, sydd drws nesaf i fynediad y safle. Bydd y compownd yn cynnwys cyfleusterau lles, parcio a storfa cyfarpar trwy gydol y gwaith adeiladu.

5.8 Bydd dau gyflenwad ymarfer o gerrig yn digwydd ddydd Gwener 19 Ionawr, gyda'r gwaith go iawn yn dechrau ddydd Llun 22 Ionawr Mae'r cerrig yn cael eu darparu gan ddwy chwarel, un ger Llanbedr Pont Steffan a'r llall ger Crosshands. Gan fod y chwareli yma i'r gorllewin o safle'r fferm wynt, bydd rhaid sicrhau bod gyrywyr yn cadw i'r llwybr cyflenwi y cytunwyd arno, gan osgoi teithio trwy Bontarddulais.

5.9 Nododd PN (Mawr) bod sbwriel wedi bod yn hel ar y ffens wrth fynediad y safle, ac ei fod wedi ei wneud yn waeth gan y gwyntoedd cryfion diweddar. Nododd TJ bod sbwriel yn dod o du allan i'r safle.

(Cam gweithredu: Gofynnodd TJ i Farrans glirio'r sbwriel).

5.10 Nododd PN hefyd bod rhai o'r ffyrdd wedi mynd yn fwdlyd o ganlyniad i gerbydau gwaith a gofynnodd i'r priffyrdd gael eu cadw'n lân. Pwysleisiodd AT ei bod yn well i'r contractwyr beidio cael mwd ar y priffyrdd yn y lle cyntaf, fel nad oes angen glanhau ar ôl y digwyddiad. Esboniodd TJ eu bod angen mynd at y safle er mwyn gosod cyfleuster sych-llanbau. Tawelodd JT feddyliau'r aelodau gan ddweud bod ysgubwr yn mynd i llanbau'r priffyrdd yn fuan iawn.

5.11 Mewn ymateb i gwestiwn gan PM, cadarnhaodd TJ y bydd staff diogelwch ar y safle 24 awr y dydd.

5.12 Ymunodd Brigitte Rowlands â'r cyfarfod.

5.13 O ran cyflenwi'r cerrig i'r safle, sydd i ddechrau ar 22 Ionawr, esboniodd TJ mai'r 50 o lorïau'r dydd, a drafodwyd eisoes, fyddai'r nifer mwyaf. Nid yw'r contractwr ond yn cael adeiladu o fewn adran 300 metr ar unrhyw adeg, ac mae'n rhaid i'r holl waith draenio gael ei osod ar hyd y llwybr, bob ochr, gan gynnwys gwaith ailosod. Mae'n rhagweld y bydd Farrans yn ceisio cwblhau 85 metr o drac bob dydd, ac i wneud hyn, byddan nhw angen 500 tunnell o gerrig, sy'n gyfystyr â 25 llwyth lori bob dydd (yr uchafswm y gellid ei gyflenwi pob dydd yw 1000 o dunelli neu 50 llwyth lori). Fodd bynnag, dewis TJ yw gweithio i'r llawn botensial, sy'n golygu dod a 1000 o dunelli i'r safle pob dydd, fel bod y gwaith yn gallu cael ei orffen yn gynt.

5.14 Gofynnodd BR am ddiweddariad ar yr adroddiad ARUP ar ddiogelwch ar y ffyrdd o gwmpas safle'r fferm wynt. Mae'r adroddiad wedi cael ei orffen ac mae'n aros am fewnbwn gan Heddlu De Cymru. Adroddodd AT bod Heddlu De Cymru wedi bwriadu ymweld â'r safle yn gynharach yn y mis ond eu bod wedi cael eu rhwystro gan dywydd gwael, byddan nhw'n ceisio ymweld eto yr wythnos nesaf.

5.15 Gofynnodd BR a fydd y gilfan ym Mhum Heol yn cael ei hadfer, gan ei fod yn fater pwysig i drigolion lleol, yn enwedig trigolion Cwmdulais. Mae'r diffyg cilfan yn achosi anawsterau parcio i drigolion lleol. Byddai dyddiad ar gyfer gorffen y gwaith yma'n cael ei werthfawrogi. Esboniodd TJ bod y prosiect yn cael ei drosglwyddo o un contractwr i un arall, ac nad oedd neb wedi bod ar gael i wneud unrhyw waith. **(Cam gweithredu: TJ i godi'r mater gyda'i gyd reolwr prosiect, Mike Williams).**

5.16 Gofynnodd BR pam fod y rhododendron yn cael ei losgi ar y safle. Esboniodd TJ bod hyn wedi cael ei drwyddedu gan CNC a'i fod yn cael ei wneud o dan oruchwyliaeth Clerc Gwaith Ecolegol y prosiect; mae rhododendron yn cael ei ystyried yn wastraff arbennig. Mae'n rhywogaeth oresgynnol ac felly ni ellir ei ddefnyddio fel biomas.

6. Diweddariad gan Jenny Cowley

6.1 Mae JC wedi derbyn cais gan gymuned Rhydypanyd am arian o'r Gronfa Budd Cymunedol ac mae hi wedi esbonio iddyn nhw na fydd ceisiadau yn cael eu prosesu nes bod proses grant wedi ei sefydlu a bod y fferm wynt yn weithredol.

6.2 Cafodd JC gyfarfod defnyddiol â thrigolion Ffordd Bolgoed. Mae cryniadau yn parhau i gael eu monitro wrth fynedfa'r safle, a bydd hyn yn parhau am ddau fis arall, wrth i gyflenwadau cerrig barhau. Fe wnaeth JC gytuno i weithio gyda thrigolion a pharhau i wrando ar eu pryderon ac ymateb iddynt, a bydd yn parhau i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw waith adeiladu sy'n digwydd.

6.3 Roedd y llythyrau cyn yr ymarfer AIL wedi gweithio'n dda, ac mae JC eisiau adeiladu ar y gweithgareddau hynny. Yn y mwyafrif o achosion mae gan JC gyfeiriad ebost ar gyfer y trigolion sy'n debygol o gael eu heffeithio, ond lle nad ydi wedi bod yn bosib cael cyfeiriad ebost, byddan nhw'n ceisio cysylltu â'r triolion trwy bamffled. Bydd JC hefyd yn rhoi gwybod i Aelodau'r Grŵp Cyswllt Cymunedol

6.4 Mae JT wedi diweddarau ei flog a bydd yn dal i wneud hynny.

6.5 Y cludwr sy'n cael ei ddefnyddio yw Tarmac.

7. Unrhyw Fater Arall

7.1 Gofynnodd PN (MAWR) am ragor o wybodaeth ynglŷn â sut fydd arian y Gronfa Budd Cymunedol yn cael ei rannu ymysg cynghorau cymuned ac esboniodd bod camddealltwriaeth ynglŷn â faint y gallai Mawr elwa, a phryderon y gallai'r gymuned golli allan, er gwaetha'r ffaith bod y fferm wynt wedi ei lleoli yn y ward.

7.2 Fe wnaeth y Cadeirydd atgoffa'r aelodau bod Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe wedi cael ei benodi fel gweinyddwr annibynnol, a'i fod ar hyn o bryd yn sefydlu proses i reoli'r gronfa. Roedd yn teimlo bod y bwriad yn glir: y byddai prosiectau da gan gynghorau cymunedol lleol yn cael blaenoriaeth, cyn unrhyw gynlluniau o rannau eraill o Abertawe. Pwysleisiodd ei bod yn broses ddwy ffordd a bod angen i grwpiau a sefydliadau yn yr ardal leol ddatblygu syniadau am brosiectau da er mwyn cael eu hystyried gan y panel grantiau.

7.3 Mae aelodau'r GCC yn parhau i bryderu nad oes ganddyn nhw'r cymhwysedd proffesiynol ar gyfer datblygu prosiectau a llenwi ceisiadau am grant. Ac y bydd hyn yn eu hanfanteisio. Mae Cynghorau Cymuned yn chwilio am gadarnhad nad hyd fydd yn digwydd. Cafodd yr aelodau eu hatgoffa o gyfarfod y GCC ym mis Hydref, pan fu i gynrychiolydd o Gyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe annerch y cyfarfod a thawelu eu meddyliau na fyddai eu diffyg profiad prosiect a grant yn eu hanfanteisio.

7.4 Cafodd aelodau GCC hefyd eu hatgoffa y bydd cynrychiolwyr o'r cynghorau cymuned yn eistedd ar y paneli gwneud penderfyniadau

7.5 Nid yw'n glir pa mor bell y mae Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe wedi mynd o ran prosesu a rheoleiddio.

7.6 Mae ymgynghoriad bach yn cael ei gynnal ym Mawr, gan nad oedd y gymuned leol yn rhan o'r ymgynghoriad gwreiddio.

7.7 Dywedodd y Cadeirydd bod ganddo gysylltiad proffesiynol â Chyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe a bod ganddo hyder yng ngallu'r sefydliad i gefnogi a gweithio gyda chymunedau lleol.

7.8 Roedd aelodau'n teimlo mai'r unig ffordd o gael gwared â'u pryderon oedd trwy weld y prosesau, strwythurau rheoleiddio ac amserlenni arfaethedig.

7.9 Fe wnaeth y Cadeirydd atgoffa'r aelodau y gallen nhw gysylltu â Chyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe gyda'u cwestiynau, a bod tipyn o amser i ddelio â'r materion i gyd, cyn i'r gronfa fod ar gael, sef pan fydd y fferm wynt yn weithredol (tuag at ddiwedd 2018 mae'n debyg) **(Cam gweithredu: Fae gaiff JC ddiweddariad am y Gronfa Budd Cymunedol gan KH o Innogy).**

8. Y Cyfarfod Nesaf:

Cynhelir y cyfarfod nesaf am 6 pm dydd Iau 8 Medi, yn Neuadd Bentref Tircoed (os yw ar gael).

8.2 Daeth y cyfarfod i ben am 7.00pm.